





## Sioe Aberystwyth - yfory

Cynhelir Sioe Aberystwyth yfory. Cofiwch os hoffech i'r ysgol fynd ag eitemau i'r Sioe mae gyda chi tan ddiwedd y dydd heddiw i ddod â nhw at Mrs Buddug Davies ym mlwyddyn 5. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar lythyr Mrs Davies, sef i

1. *osod y label ar y cefn gan ddefnyddio clip papur ac nid glud, gyda'r wybodaeth yma os gwelwch yn dda:*
2. *eich enw llawn ar y cefn*
3. *enw Dosbarth a Blwyddyn*
4. *rhif y gystadleuaeth yn glir*

🖰 Rhaglen Sioe Aberystwyth

## *Aberystwyth Show - tomorrow*

*Aberystwyth Show is held tomorrow. If you would like the school to take items to the Show, you have until the end of today to bring them to Mrs Buddug Davies in Year 5.*
*Please follow the instructions in Mrs Davies's letter, which are:*

1. *attach the label to the back using a paperclip, not glue, with the following information:*
2. *your full name on the back*
3. *class name and Year group*
4. *the competition number clearly visible*

🖰 Aberystwyth Show Programme

---




## Mabolgampau Ysgol – mwy o wybodaeth

Cynhelir y Mabolgampau Ysgol ar ddydd Iau y $19^{eg}$ o Fehefin ar Gaeau yr Ysgol a Chaeau Ysgol Penweddig. Maent yn cychwyn am 12:45yp ar gyfer Bl.1-6 (am 1 o'r gloch i'r Meithrin a Derbyn) Mae croeso i chi fel rhieni i ddod i gefnogi, a bydd rasys ar eich cyfer ar ddiwedd y prynhawn! Mae'r G.Rh.A yn awyddus i gael cymorth ar y stondin – dyma ddolen ganddynt i ofyn pwy fyddai'n medru cynorthwyo am 15 munud ar y diwrnod: 🖰 Dolen i Forms y GRhA



Byddai'r G.Rh.A yn ddiolchgar iawn pe gallech eu cefnogi drwy **gyfrannu cacennau i'w gwerthu ar y stondin**, gan ddod â nhw i'r dosbarth ar fore'r Mabolgampau. Cofiwch beidio cynnwys **cnau**.

🖰 Dolen i Raglen y Mabolgampau Ysgol



Er gwybodaeth hefyd, cynhelir Ras y Marathon ar gyfer disgyblion bl.3-6 ddydd Mawrth nesaf, Mehefin 17eg ar gae yr ysgol. Mae hyn yn un o'r cystadlaethau paratoadol at y Mabolgampau Ysgol, fel y naid uchel a'r naid hir ac ati, er mwyn cyfrannu at bwyntiau personol y plant.

## *School Sports Day – more information*

*The School Sports Day will be held on Thursday, June 19th on the School Field and Penweddig School Field. It will start at 12:45pm for Years 1–6 (and at 1:00pm for Nursery and Reception). Parents are warmly invited to come along and support — and there will be races for you at the end of the afternoon!*
*The PTA is keen to get some help on the stall — here is a link from them asking who's available for a 15 minute slot:* 🖰 Link to PTA Forms

*The PTA would be very grateful if you could support them by **providing cakes to be sold on the stall**, and bring them to class on the morning of the Sports Day. Remember not to include **nuts**.*

🖰 Link to Sports Day Timetable

*Also for your information, the Marathon Race for pupils in years 3-6 will be held next Tuesday, June 17th on the school field. This is one of the preparatory competitions for the School Sports, such as the high jump and the long jump etc., in order to contribute to the children's personal points.*

---





## Sgleinio'r Lleuad

Bydd dosbarthiadau'r Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Theatr y Werin ar gyfer cynhyrchiad gan Arad Goch o 'Sgleinio'r Lleuad' gan Caryl Lewis ar **ddydd Mercher y 18fed o Fehefin** yn ystod y prynhawn.
Rydym yn ddiolchgar i Mrs Nia Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr am lwyddo i gael grant o £1,000 gan 'Ewch i Weld' tuag at gostau'r sioe (fel arfer yn £8). Bydd cyfraniad fechan tuag at y bysiau yn ymddangos ar eich ParentPay wythnos nesaf.

## *Sgleinio'r Lleuad (Polishing the Moon)*

*Reception, Year 1 and Year 2 classes will be visiting Theatr y Werin for a production by Arad Goch of 'Sgleinio'r Lleuad' by Caryl Lewis on the afternoon of* ***Wednesday, 18th June.***
*We are grateful to Mrs Nia Evans, Chair of the Governors, for successfully securing a £1,000 grant from the 'Go and See' scheme towards the cost of the show (usually £8).*
*A small contribution towards the cost of the buses will appear on your ParentPay account next week.*

---



## Tripiau haf

Byddwch yn derbyn llythyr gan yr athrawon dosbarth yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf yn cynnwys gwybodaeth am drip haf eich plentyn.

Dyma ddolen i ffurflen ar gyfer archebu pecyn bwyd i ginio ar gyfer eich plentyn ar ddiwrnodau allan o'r ysgol megis y trip haf. Eich dewis yw i ddarparu pecyn bwyd cinio eich hunan i'ch plentyn, neu i ddychwelyd y ffurflen hon **o leiaf wythnos cyn y diwrnod** i athro/athrawes eich plentyn er mwyn i'r gegin gael gwybod mewn da bryd fod angen paratoi cinio ar gyfer eich plentyn.

## *Summer trips*

*You will receive a letter from the class teachers in the next week or two containing information about your child's summer trip.*

*Here is a link to a form for ordering a packed lunch for your child on days out of school such as the summer trip. Your choice is to provide your child with your own packed lunch, or to return this form* ***at least a week before the trip*** *to your child's teacher so that the kitchen is informed in good time that a packed lunch needs to be prepared for your child.*

---




Gweler y poster llawn ar waelod y llythyr

## Ffarwelio dros y Ffens

Sylwch ar y Calendr Hanner Tymor fod yna ddigwyddiad gyda ni am 2 o'r gloch ar y 7fed o Orffennaf o'r enw 'Ffarwelio dros y ffens'. Rydych yn ymwybodol eisoes fod Mr Clive Williams, a fu'n Bennaeth yr Ysgol Gymraeg rhwng 2001 – 2025 wedi symud 'dros y ffens' fel petai, bellach yn Bennaeth Ysgol Penweddig. Ein bwriad yw i gynnal cyngerdd awyr agored iddo, yn y bwlch rhwng y ddwy ysgol. Bydd croeso i rieni a chyn-ddisgyblion ymuno â ni ar y cae.
**Byddwn yn cyflwyno rhodd i Mr Williams ar y diwrnod. Os hoffech gyfrannu tuag at y rhodd a wnewch chi gyflwyno arian parod mewn amlen dan sêl gyda'ch manylion arno i Mrs Wendy James yn Swyddfa'r Ysgol erbyn 27ain o Fehefin os gwelwch yn dda.**

## *Farewell over the Fence*

*Please note on the Half Term Calendar that there is an event with us at 2:00pm on July 7th called* ***'Farewell Over the Fence'.***
*As you already know, Mr Clive Williams, who was Headteacher of Ysgol Gymraeg from 2001–2025, has now moved 'over the fence', so to speak, and is now Headteacher of Ysgol Penweddig.*
*We intend to hold an outdoor concert in the space between the two schools. Parents and former pupils are warmly invited to join us on the field.*
***We will be presenting Mr Williams with a gift on the day. If you would like to contribute towards the gift, please send money in a sealed envelope with your details on it to Mrs Wendy James in the School Office by 27th June, please.***

---




## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf:


- Mabolgampau Ysgol : Mehefin 19eg
- H.M.S : Ysgol ar gau Mehefin 27ain
- Ffarwelio dros y ffens : Gorffennaf 7fed
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 17eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 18fed
- Blwyddyn ysgol newydd yn cychwyn : Medi 3ydd

### *Summer term important dates:*

- *School Sports Day : June 19th*
- *I.N.S.E.T Day : School closed June 27th*
- *Farweling over the fence¬*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 17th*
- *Last day of term : July 18th*
- *New school year begins : September 3rd*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**13/06/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru




Sioe Sir Ceredigion
ABERYSTWYTH
Ceredigion County Show
14 Mehefin 2025
Caeau Gelli Angharad, SY23 3HP
• Yr anifeiliaid gorau
• Cynnyrch lleol o safon
• Gorymdaith hen beiriannau
• Ardal blant
• Cystadlaethau rhowch gynnig arni gyda'ch ci
• Cerddoriaeth fyw
£10 o flaen llaw
Plant iau nag 11 oed AM DDIM
Bws gwennol AM DDIM o Orsaf Fysiau Aberystwyth
NOS
• Bwncath • Aeron Pughe a'r Band ac eraill
£10
sioeaberystwythshow.co.uk


Rygbi Ysgolion Ceredigion Schools Rugby
Os am drafod ymhellach/ Please direct any queries to:
RichardsC484@hwbcymru.net
o dan/ under 11
DIWRNOD ADNABOD CHWARAEWYR
YSGOLION CEREDIGION SCHOOLS
PLAYER IDENTIFICATION DAY
Dydd Mawrth 01.07.2025 Tuesday
10:30-14:00
Caeau Ymarfer Cwmann Training Fields, SA48 8DU
Agored i ferched a bechgyn Blwyddyn 5 a 6 Medi 2025. Nid oes rhaid bod yn aelod o glwb rygbi. Dylai pob disgybl sy'n mynychu drefnu cludiant eu hunain. Bydd angen pecyn bwyd a photeli dŵr arnynt. Bwriedir gwahodd y rhai llwyddiannus i ail rownd o dreialon ar ddydd Sul y 6ed o Orffennaf.
Open to girls and boys who will be in Years 5 and 6 in September 2025. Club experience is not essential. All attendees must arrange their own transport to and from the ID day and must bring a packed lunch, plenty of water and appropriate clothing with them. Please note that if successful in the first trial, players will be invited to a second trial which will be held on Sunday the 6th of July.


Bore Agored
Open Morning
CYLCH MEITHRIN ABERYSTWYTH
27/06/25
9:30-11:30
Cyfle i ddarpar rieni a phlant i edrych o gwmpas i weld beth sydd gan ein Cylch i gynnig.
An opportunity for prospective parents and their children to have a look around and see what our Cylch has to offer.
Sesiwn Bore/Prynhawn
Gofal Cinio
Cinio Poeth
Trosglwyddo i'r ysgolion cynradd lleol
Gofal trwy'r dydd
Morning/Afternoon Session
Lunchtime Supervision
Hot Lunches
Pick up and drop off at local schools
All day session
CANOLFAN INTEGREDIG MUDIAD MEITHRIN
BOULEVARD DE SAINT BRIEUC
ABERYSTWYTH
SY23 1PD
01970 639670
cylchmeithrinaberystwyth@gmail.com


Cylch Meithrin Aberystwyth
mudiad meithrin
Ydy eich plentyn chi rhwng 2 a 5 oed?
Rhowch gynnig ar addysg cyn ysgol! Dechrau da i'ch plentyn!
Is your child between 2 and 5 years old?
Give pre-school a go! A great start for your child!
Amseroedd agor / Opening Times
(Yn ystod tymor ysgol / Term time only):
Llun / Monday: 8:45 - 3:45
Mawrth / Tuesday: 8:45 - 3:45
Mercher / Wednesday: 8:45 - 3:45
Iau / Thursday: 8:45 - 3:45
Gwener / Friday: 8:45 - 12:45
Gwasanaethau
Services
Rydym yn darparu gwasanaeth casglu a chludo i Ysgol Gymraeg ac Ysgol Plascrug.
We provide a service of collecting and transfering your child to and from Ysgol Gymraeg and Ysgol Plascrug.
Cinio poeth ar gael !
Hot meals available!
Cysylltwch â ni heddiw
Contact us today
Carys Lloyd
cylchmeithrinaberystwyth@gmail.com
Cylch Meithrin Aberystwyth, Y Ganolfan Intergredig, Boulevard de Saint Brieue, SY23 1PD / 01970 639670
Cylch Meithrin Aberystwyth
Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales
FOOD HYGIENE RATING
5